

Rhedeg gweithgaredd ar gyfer yr Wythnos Gofalwyr



Ein rhestr wirio a'n deg awgrym pwysig

Wrth gynllunio eich gweithgaredd ar gyfer yr Wythnos Gofalwyr, mae'n syniad da ystyried y canlynol:

Penderfynwch ar bwrpas eich gweithgaredd, e.e. rhannu gwybodaeth ddefnyddiol gyda gofalwyr, annog gofalwyr i gysylltu a sgwrsio, rhoi'r cyfle i ofalwyr roi cynnig ar weithgaredd creadigol neu ddosbarth ymarfer corff ar-lein, ac ati.

Ystyriwch a fydd angen unrhyw gyllid arnoch ar gyfer eich gweithgaredd.

Lledaenwch y gair am eich gweithgaredd, er enghraifft ar y cyfryngau cymdeithasol neu yn eich cylchlythyr drwy e-bost. Mae gennym graffeg cyfryngau cymdeithasol a thempled datganiad newyddion ar gael i'w llwytho i lawr.

Ceisiwch estyn allan at sefydliadau eraill yn eich cymuned a allai gefnogi eich gweithgaredd. Er enghraifft, efallai y bydd gan fusnesau lleol ddi-ddordeb mewn rhoi bagiau o bethau da i ofalwyr, neu efallai y byddwch eisiau ymuno ag elusen neu grŵp cymunedol lleol i gael yr effaith fwyaf

Os yw eich gweithgaredd yn mynd i fod ar-lein, mae'n bwysig ystyried y rheiny sydd ddim yn gallu cael mynediad at weithgareddau ar-lein, neu sy'n well ganddynt beidio â chael mynediad atynt. A fedrwn chi gyrraedd gofalwyr lleol mewn ffyrdd eraill hefyd, er enghraifft dros y ffôn?


Os yw eich gweithgaredd yn mynd i fod mewn person yn hytrach nag ar-lein, gwnewch yn siŵr ei fod yn ddiogel, yn gyfreithlon ac yn unol â chyfyngiadau lleol.

Gwnewch yn siŵr eich bod chi wedi ychwanegu eich gweithgaredd at wefan yr Wythnos Gofalwyr, a rhowch wybod i ni beth ydych chi'n mynd i'w wneud!

Deg awgrym pwysig ar gyfer eich gweithgaredd Wythnos Gofalwyr

1.

Cynnwys gwybodaeth a chyngor i ofalwyr yn eich cylchlythyr drwy e-bost.



2.

Rhedeg sesiwn galw heibio ar-lein i roi cyngor neu wybodaeth. Mae llawer o arbenigwyr sydd yn gallu helpu i gysylltu gofalwyr gyda chymorth, neu sy'n gallu cynnig awgrymiadau ar lesiant.



3.

Trefnu cwis neu fore coffi ar-lein. Mae hyn yn ffordd wych i ofalwyr gysylltu â gofalwyr eraill a chymryd seibiant.



4.

Creu rhestr chwarae o ganeuon ymlaciol yn defnyddio YouTube neu Spotify, y gallwch eu rhannu gyda gofalwyr i'w helpu i ymlacio a chymryd seibiant.

5.

Rhedeg cystadleuaeth lle mae gofalwyr yn cyflwyno straeon byrion, cerddi neu luniau am eu profiadau o ofalu. Gallech redeg seremoni ar-lein i ddathlu'r ceisiadau.

6.

Gweithio mewn partner gyda busnes lleol i anfon hamperi neu becynnau gofal at ofalwyr.

7.

Rhedeg sesiwn gweithgarwch corfforol ar-lein sy'n addysgu cyfranogwyr am ymarferion cadair syml neu weithgareddau eraill y gallant eu gwneud o gartref.



8.


Cynnal digwyddiad gyda'r adran Adnoddau Dynol yn eich gweithle, i roi gwybod i staff am eich polisiau sy'n ystyriol o ofalwyr a'r cymorth sydd ar gael yn y gwaith, neu ei ddefnyddio i lansio polisi newydd.

9.

Gwahodd siaradwr gwadd, fel arbenigwr iechyd meddwl, gwleidydd lleol neu ofalwr sydd eisiau rhannu eu stori.

10.

Gofyn i'ch cymuned ysgrifennu cardiau neu lythrau at ofalwyr lleol, yn enwedig y rheiny sydd â llai o fynediad i'r rhyngwyd.



carersweek.org/carers